Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Arberth
# Canolfan Gymunedol Bloomfield
# Redstone Road
# Arberth
# Sir Benfro
# SA67 7EP

## Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn.

**© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 18/12/2018**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Arberth sy'n cwrdd mewn ystafell yn neuadd gymunedol Bloomfield yn nhre Arberth, Sir Benfro. Mae'n cynnig addysg ar gyfer plant o ddwy a hanner i bedair blwydd oed mewn sesiynau o ddwy awr a hanner am bum bore bob wythnos. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i dderbyn hyd at 24 o blant fesul sesiwn. Mae 39 o blant ar y gofrestr ar hyn o bryd, gydag 14 ohonynt yn cael addysg y blynyddoedd cynnar wedi ei hariannu gan yr awdurdod lleol.

Ychydig o blant sydd yn siarad Cymraeg yn y cartref ac mae ychydig iawn o blant yn siarad Saesneg fel iaith ychwanegol. Mae 6 aelod staff yn gweithio yn y lleoliad, gyda'r arweinydd yn ei swydd ers Ionawr 2014.

Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) ym mis Gorffennaf 2017 a chan Estyn ym mis Chwefror 2012.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

## Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- mwyafrif y plant yn gwneud cynnydd addas ac yn datblygu agweddau positif at ddysgu
- bron pob un o'r plant yn hapus yn dod i'r lleoliad ac yn ymgartrefu'n dda
- bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda ac yn dangos parch a chwrteisi at eraill
- ymarferwyr yn cynllunio amrywiaeth priodol o weithgareddau sy'n ennyn diddordeb llawer o'r plant yn briodol
- ymarferwyr yn datblygu medrau corfforol plant yn gadarn
- perthynas waith gadarn yn bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant
- ymarferwyr wedi creu amgylchedd ddysgu groesawgar ac ofalgar ar gyfer y plant

Fodd bynnag:

- dim ond ychydig o blant sy'n ceisio defnyddio'u Cymraeg wrth drafod eu gwaith gydag oedolion a'u cyfoedion
- nid yw medrau meddwl a datrys problemau plant wedi datblygu'n ddigon cadarn
- prin yw'r cyfleoedd i blant gymryd cyfrifoldebau ac i feithrin medrau annibynnol yn rheolaidd
- nid yw ymarferwyr yn cynllunio'n fwriadus er mwyn i blant gymhwyso'u medrau yn unol â'u gallu

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn ddigonol oherwydd bod:

- ymarferwyr yn cydweithio'n dda fel tîm
- trefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad staff
- ystod addas o bartneriaethau buddiol yn cefnogi'r ddarpariaeth yn llwyddiannus
- arweinwyr yn adnabod mwyafrif o'r cryfderau a llawer o feysydd i'w gwella yn briodol
- ganddo ystod addas o adnoddau er mwyn bodloni gofynion y cyfnod sylfaen

Fodd bynnag:

- nid yw arweinwyr yn ymateb yn ddigon effeithiol ar gyngor gan bartneriaid ar sut i wella
- nid oes digon o ffocws ar gynllunio'n strategol i godi safonau

- nid yw gweithdrefnau hunanarfarnu yn mesur effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar ddeilliannau'r plant yn ddigon effeithiol
- nid yw trefn y dydd yn sicrhau bod ymarferwyr yn gwneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau sydd ar gael

## Argymhellion

A1 Gwella medrau llafar plant

A2 Gwella rôl arweinwyr o ran gosod cyfeiriad strategol clir a gweithredu ar ddeilliannau'r prosesau hunanarfarnu

A3 Cynllunio'n fwriadus i alluogi plant i gymhwyso eu medrau'n gynyddol ar draws y cwricwlwm yn yr ardaloedd dysgu

A4 Darparu cyfleoedd rheolaidd i'r plant ymchwilio, datrys problemau ac i ddatblygu'n ddysgwyr annibynnol llwyddiannus

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Mae medrau sylfaenol mwyafrif y plant wrth ddechrau yn y lleoliad yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu hamser yn y lleoliad, mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn ac yn datblygu agweddau positif at ddysgu.

Mae medrau gwrando mwyafrif o'r plant yn datblygu'n briodol wrth wrando ar storïau ac ymuno â gweithgareddau amser cylch. Maent yn eistedd yn llonydd gan ddangos diddordeb a dealltwriaeth gynyddol o gyfarwyddiadau a chwestiynau cyfarwydd. Mae gan lawer ymwybyddiaeth addas o hwiangerddi a chaneuon Cymreig ac maent yn mwynhau ymuno â'r canu a gwneud symudiadau priodol, er enghraifft trwy ganu ar goedd i ddangos eu bod yn bresennol yn ystod amser cylch. Fodd bynnag, dim ond ychydig o blant sy'n ceisio defnyddio'u Cymraeg wrth drafod eu gwaith gydag oedolion a'u cyfoedion.

Mae llawer o'r plant yn dod o hyd i'w henwau eu hunain ar ffurf ysgrifenedig heb gymorth pan fyddant yn hunangofrestru ac wrth eistedd i fwyta byrbryd. Maent yn adnabod lliwiau yn briodol ac yn dangos diddordeb mewn llyfrau gan drin y llyfr yn gywir ac wrth droi'r tudalennau i ddilyn y stori. Mae mwyafrif yn awyddus iawn i ddarganfod yr hyn sy'n digwydd nesaf wrth i oedolyn ddarllen stori diwedd dydd. Mae lleiafrif y plant yn dechrau dangos dealltwriaeth addas o bwrpas ysgrifennu ac yn dechrau creu marciau yn briodol, er enghraifft trwy ddefnyddio sialc i wneud gwahanol farciau yn yr ardal allanol.

Mae mwyafrif o'r plant yn datblygu eu medrau rhifedd yn briodol trwy ddefnydd ymarferol o rif, er enghraifft wrth gyfri sawl cragen cocosen sydd yn y bocs. Mae'r plant hyn yn rhifo gwrthrychau hyd at 10 yn llwyddiannus ac mae ychydig iawn yn medru adnabod a chyfri hyd at 20. Mae llawer yn adnabod siapiau dau ddimensiwn yn briodol ac yn deall sut i ddosbarthu gwrthrychau yn ôl nodweddion tebyg, er enghraifft wrth drefnu dail yr Hydref yn ôl eu lliw. Fodd bynnag, nid yw medrau rhifedd y plant mwy abl yn datblygu'n ddigon effeithiol.

Mae gan fwyafrif o'r plant fedrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) priodol. Maent yn dechrau defnyddio llechen gyfrifiadurol i chwarae gêm a rheoli tegan rhaglenadwy â chymorth oedolyn yn addas. Mae rhan fwyaf y plant yn deall pwrpas offer technolegol yn dda wrth iddynt chwarae rôl, er enghraifft wrth ddefnyddio hen ffôn a'r til yn y 'swyddfa bost'.

Mae gan lawer o'r plant fedrau corfforol cadarn. Maent yn cydbwyso'n fedrus wrth reoli beic yn yr ardal allanol ac wrth wneud gwahanol symudiadau o amgylch y neuadd. Mae medrau mudol mân rhan fwyaf y plant yn datblygu'n llwyddiannus, er enghraifft wrth iddynt gwblhau jig-so, defnyddio toes ac wrth drin gwrthrychau yn y byd bach. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio offer bach gyda rheolaeth gadarn mewn amrywiaeth o dasgau gwahanol, fel defnyddio pliciwr i gael gafael ar goncyr a chregyn cocosen.

Yn gyffredinol, cyfyng yw gallu'r rhan fwyaf o blant i ddatrys problemau. Ychydig o blant yn unig sydd yn datblygu eu medrau meddwl ar draws y meysydd dysgu yn briodol. Mae medrau creadigol llawer o blant yn datblygu'n addas, er enghraifft trwy ddefnyddio offer cerddorol yn yr ardal allanol yn ogystal â defnyddio paent i brintio amlinelliad o'u dwylo.

**Lles: Da**

Mae bron bob un plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn ymgymryd yn frwdfrydig â dewisiadau o weithgareddau. Mae'r rhan fwyaf yn dangos lefel uchel o gymhelliant a dyfalbarhad wrth weithio'n annibynnol a chyda'u cyfoedion yn ystod cyfnod chwarae rhydd. Maent yn gwneud dewisiadau da ynglŷn â'u dysgu yn ystod y cyfnodau hyn, er enghraifft wrth ddewis ardaloedd i chwarae yn annibynnol. Mae'r rhan fwyaf yn ymddwyn yn dda gan ddangos parch tuag at eraill, yn aros eu tro ac yn rhannu offer gyda'i gilydd. Fodd bynnag, mae ychydig o'r plant yn amharod i ganolbwyntio yn ystod gweithgareddau grŵp mawr ar y carped ac yn colli diddordeb.

Mae llawer o'r plant yn adalw dysgu blaenorol yn gadarn ac yn defnyddio'u gwybodaeth yn briodol, er enghraifft wrth gyfri nifer y bechgyn a merched sy'n bresennol. Yn gyffredinol, mae medrau annibynnol llawer o blant yn datblygu'n briodol, er enghraifft trwy frwsio dannedd a golchi dwylo cyn bwyta. Mae llawer yn gwisgo a dadwisgo cotiau yn lled annibynnol er bod angen cymorth oedolyn ar ychydig ohonynt. Mae bron bob un yn dewis byrbryd iachus yn ystod amser snac ac yn dangos medrau cymdeithasol da yn ystod y sesiynau hyn. Maent yn gwrtais wrth eistedd gyda'u cyfoedion ac yn dweud 'diolch' wrth gymryd lluniaeth.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn cynnig ystod addas o brofiadau dysgu sy'n ennyn diddordeb llawer o'r plant yn briodol. Maent yn ystyried diddordebau'r plant ynghyd â'u syniadau eu hunain yn addas wrth gynllunio. Yn ddiweddar iawn, mae'r holl ymarferwyr yn cwrdd yn fwy rheolaidd er mwyn cyd-gynllunio gweithgareddau a phrofiadau dysgu perthnasol. Mae ymarferwyr yn gwneud defnydd addas o ardaloedd dysgu tu fewn ac yn allanol i gyfoethogi'r ddarpariaeth, er nid ydynt bob tro'n cynllunio'n ddigon bwriadus i alluogi plant i gymhwyso eu medrau yn gynyddol ar draws yr ardaloedd dysgu. Heblaw am y sesiwn chwarae rhydd boreol, prin yw'r cyfleoedd i blant ddewis profiadau dysgu'n annibynnol ac i ymchwilio drostynt eu hunain.

Mae ymarferwyr yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant yn briodol. Maent yn sicrhau cyfleoedd addas i ddatblygu'r medrau hyn trwy weithgareddau ac ymarferion rheolaidd. Er enghraifft, maent yn ymarfer ymatebion i gwestiynau cyfarwydd gyda'r plant yn ystod amser cofrestru ac amser grŵp mawr ac yn canu caneuon a rhigymau cyfarwydd yn ddyddiol. Maent hefyd yn atgyfnerthu rhifau, lliwiau a siapau yn briodol yn ystod y sesiynau hyn. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i blant ddatblygu eu gallu i ddatrys problemau yn unol â'u hoed a'u gallu. Mae ymarferwyr yn darllen stori i'r plant yn ddyddiol. Maent yn defnyddio'r cyfleoedd hyn yn briodol i ddysgu geirfa newydd i'r plant ac i datblygu'u gwerthfawrogiad o lyfrau. Fodd bynnag, cyfyng yw'r cyfleoedd i ddatblygu medrau ysgrifennu cynnar y plant trwy weithgareddau pwrpasol ac nid yw ymarferwyr yn cynllunio'n ddigon

bwriadus i ddatblygu medrau llafar y plant. Mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd addas i'r plant ddatblygu'u medrau TGCh trwy ystod briodol o brofiadau dysgu, er enghraifft trwy reoli tegan rhaglenadwy a dechrau defnyddio apiau ar lechen yn briodol.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau corfforol plant yn gadarn trwy weithgareddau awyr agored yn ogystal ag yn neuadd y ganolfan yn rheolaidd. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio na'r drefn ddyddiol yn sicrhau bod y plant yn cael mynediad di-dor i weithgareddau yn yr ardal allanol.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd buddiol i blant ddysgu am draddodiadau a dathliadau Cymreig, er enghraifft drwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Santes Dwynwen. Mae ymarferwyr yn defnyddio ymweliadau ac ymwelwyr yn achlysurol i gyfoethogi profiadau dysgu yn briodol, er enghraifft trwy wahodd milfeddyg i siarad â'r plant am sut i ofalu am anifeiliaid anwes. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd dysgu addas i blant ddysgu am bwysigrwydd dangos parch a goddefgarwch tuag at bobl o gefndir diwylliannol gwahanol. Er enghraifft, maent yn blasu bwyd a dysgu am sut mae pobl yn defnyddio gwahanol symbolau i ysgrifennu fel rhan o weithgareddau a phrofiadau dysgu yn ymwneud â dathlu'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

**Addysgu: Digonol**

Mae perthynas waith hyfryd yn bodoli rhwng y plant a'r ymarferwyr sy'n hyrwyddo agweddau da o ran cydweithio a pharch tuag at ei gilydd. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at greu amgylchedd ddysgu groesawgar â naws ofalgar ar gyfer y plant. Mae'r ymarferwyr yn cydweithio'n gadarn fel tîm sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Yn gyffredinol, mae ganddynt ddealltwriaeth briodol o egwyddorion y cyfnod sylfaen a datblygiad plant. Maent yn ymdrechu'n galed yn ddyddiol i greu amgylchedd ddysgu ysgogol i blant trwy sefydlu ardaloedd dysgu priodol o fewn yr ystafell. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio'n ddigon trylwyr er mwyn sicrhau cyfleoedd buddiol i blant gymhwyso'u medrau trwy ddefnyddio'r ardaloedd hyn trwy gydol y sesiynau. Yn ogystal, nid yw'r cynllunio bob tro'n sicrhau cydbwysedd effeithiol rhwng gweithgareddau a ddewisir gan blentyn a'r rheini a arweinir gan oedolion.

Mae ymarferwyr yn canmol y plant am eu hymdrechion yn rheolaidd ac yn rheoli ymddygiad mewn ffordd synhwyrol a sensitif. Maent yn defnyddio 'rheolau aur' yn fedrus er mwyn atgyfnerthu ymddygiad da. Mae ymarferwyr yn defnyddio holi pwrpasol a chwestiynau agored i geisio gwella dealltwriaeth a medrau meddwl y plant yn gadarn. Er enghraifft, maent yn annog y plant i gyfri bylbiau blodau ac i ddisgrifio sut i ofalu amdanynt wrth blannu yn yr ardd. Ar y cyfan, mae'r ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn briodol, er nid ydynt bob tro'n annog y plant yn ddigon cadarn i ymarfer ac ymestyn eu medrau iaith.

Mae ymarferwyr yn dechrau gwneud defnydd addas o asesiadau anffurfiol i gofnodi cynnydd y plant ar draws y meysydd dysgu. Mae'r defnydd o broffil y cyfnod sylfaen yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o gynnydd plant yn addas. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ddigon effeithiol er mwyn cynllunio'n ddigon bwriadus ar gyfer anghenion grwpiau penodol o blant. O ganlyniad, nid yw disgwyliadau ymarferwyr bob tro'n ddigon uchel er mwyn cynnig gweithgareddau sydd yn herio'r plant yn ddigon effeithiol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned hapus a chroesawgar lle mae iechyd a lles y plant yn flaenoriaeth gan yr holl ymarferwyr. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae ymarferwyr yn sicrhau cyfleoedd buddiol i blant ddysgu am sut i ofalu am eu hunain trwy ystod addas o weithgareddau. Enghraifft dda o hyn yw’r arweiniad a’r cyfleoedd a roddir i blant ddysgu am sut i ofalu am eu dannedd. Maent hefyd yn hyrwyddo pwysigrwydd bwyta ac yfed yn iach yn llwyddiannus trwy weithgareddau fel amser byrbryd. Mae’r cyfnodau hyn hefyd yn datblygu medrau cymdeithasol y plant yn briodol ac yn dysgu iddynt ymddwyn yn gwrtais a chymryd eu tro. Fodd bynnag, nid yw’r ymarferwyr yn sicrhau digon o gyfleoedd buddiol i blant gymryd cyfrifoldebau o fewn y lleoliad, er enghraifft i weini’r byrbryd ac i dacluso ar ôl gweithgareddau dysgu.

Mae’r lleoliad yn darparu cyfleoedd buddiol ar gyfer datblygu medrau corfforol y plant trwy ystod addas o weithgareddau, er enghraifft trwy reoli beic o amgylch y llwybr yn yr ardal allanol. Mae ymarferwyr hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn briodol yn yr arferion dyddiol. Enghraifft effeithiol o hyn yw trwy annog y plant i drafod rheolau aur yn ystod sesiynau grŵp mawr. Mae hyn yn sicrhau bod bron pob un o’r plant yn ystyried teimladau cyfoedion yn ddeallus, yn cydweithio’n deg ac yn parchu eraill. Mae’r lleoliad yn darparu cyfleoedd priodol i’r plant ddysgu am gynaliadwyedd trwy ailgylchu papur. Mae hyn yn datblygu eu dealltwriaeth o sut i ofalu am y byd yn addas.

Mae prosesau cadarn gan y lleoliad i ymateb i anghenion unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn ôl yr angen. Maent yn cydweithio’n llwyddiannus ag asiantaethau arbenigol fel y therapydd iaith a lleferydd er mwyn cyflwyno rhaglenni pwrpasol i grwpiau penodol o blant pan fo’r angen.

**Yr amgylchedd dysgu: Digonol**

Mae’r lleoliad yn cynnig amgylchedd ddysgu groesawgar a chefnogol ar gyfer y plant. Mae gan y lleoliad ethos cynhwysol lle mae pob plentyn yn cael ei barchu ac yn cael yr un chwarae teg. Mae’r ymarferwyr yn cydweithio’n dda i sicrhau bod y cyfarpar a’r offer dysgu yn cael eu trefnu’n llwyddiannus bob bore er mwyn creu ardaloedd dysgu buddiol. Mae’r ardaloedd dysgu hyn yn ddeniadol ac wedi’u trefnu’n briodol er mwyn diwallu diddordebau’r plant ac i hybu eu medrau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn addas. Fodd bynnag, nid yw’r holl ardaloedd hyn ar gael i’r plant drwy gydol y sesiwn. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i wneud penderfyniadau ynglŷn â ble a sut maent yn dysgu ac ar eu gallu i gymhwyso’u medrau’n annibynnol.

Mae’r lleoliad yn ddiogel ac yn cael ei gadw’n lân. Mae arddangosfeydd lliwgar a deniadol yn cefnogi’r dysgu ac yn dathlu gwaith y plant yn briodol. Er bod gan y lleoliad ethos Cymreig priodol, nid yw ymarferwyr bob tro’n atgyfnerthu hyn yn ddigon effeithiol fel rhan annatod o’r gwaith pob dydd. Yn gyffredinol, mae gan y lleoliad gyflenwad addas o adnoddau sy’n cefnogi egwyddorion y cyfnod sylfaen yn briodol. Mae’r ardal allanol yn galluogi’r plant i fentro ac i ddysgu mwy am fyd natur, er enghraifft trwy blannu a thyfu llysiau a blodau yn yr ardd. Fodd bynnag, nid yw’r ardal allanol wedi datblygu’n ddigon effeithiol ac nid yw ymarferwyr yn cynllunio’n ddigon bwriadus i ddatblygu medrau’r plant yn yr ardal hon.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Digonol |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan yr arweinydd weledigaeth addas ar gyfer y lleoliad yn seiliedig ar ddarparu awyrgylch ofalgar, gartrefol ac ysgogol i'r plant. Mae'n cefnogi'r staff yn eu gwaith pob dydd yn gadarn ac yn dosbarthu cyfrifoldebau yn briodol. Fodd bynnag, nid oes digon o ffocws ar gynllunio'n strategol i godi safonau ac nid yw arweinwyr yn sicrhau bod y ddarpariaeth a'r addysgu yn arwain yn ddigon pwrpasol at welliannau mewn safonau. Yn ddiweddar, mae'r arweinydd a'r holl staff yn cwrdd yn rheolaidd i drafod agweddau penodol ar waith y lleoliad, gan gynnwys cynllunio themâu a phrofiadau dysgu. Mae hyn yn atgyfnerthu'r ymdeimlad o berthyn a gwerthfawrogiad ymhlith y staff. Fodd bynnag, nid yw'r arferion hyn wedi eu gwreiddio'n ddigon cadarn hyd yn hyn ac nid yw'r holl staff yn cyfrannu'n ddigon effeithiol tuag at weithdrefnau dyddiol y lleoliad.

Mae gan y lleoliad drefniadau priodol ar gyfer rheoli perfformiad staff. Mae aelodau'r pwyllgor yn cymryd rôl flaenllaw yn y broses o adolygu perfformiad yr holl staff gan gynnwys yr arweinydd. Mae hyn yn sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd buddiol i drafod elfennau o'u perfformiad ynghyd ag adnabod unrhyw hyfforddiant pellach sydd ei angen arnynt. Fodd bynnag, nid yw arweinwyr bob tro'n gweithredu'n ddigon effeithiol ar ganfyddiadau'r broses er mwyn gwella elfennau pwysig o'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant.

Mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn cydweithio'n addas er mwyn sicrhau bod polisïau statudol yn cael eu gweithredu. Maent yn cwrdd yn rheolaidd ac yn derbyn gwybodaeth berthnasol gan yr arweinydd sy'n eu cefnogi i wneud penderfyniadau synhwyrol ynglŷn â'r ddarpariaeth a chyllid. Mae'r pwyllgor yn gefnogol i fywyd a gwaith y lleoliad ac yn gwneud y gorau o'u harbenigeddau amrywiol, er enghraifft wrth ymgeisio am grantiau yn rheolaidd a threfnu digwyddiadau arbennig er mwyn ychwanegu at y cyllid. Fodd bynnag, nid oes gan aelodau'r pwyllgor rheoli ddealltwriaeth ddigon cadarn o holl fywyd a gwaith y lleoliad gan gynnwys y cryfderau a'r meysydd pwysig sydd angen eu gwella.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan y lleoliad drefniadau addas ar gyfer adnabod mwyafrif o'i chryfderau yn ogystal â llawer o agweddau sydd angen eu gwella. Mae'r arweinydd yn defnyddio adroddiadau monitro partneriaid fel sail i'r trefniadau hyn ac yn gofyn am farn rhieni yn achlysurol. Mae cyfarfodydd staff diweddar iawn yn cynnwys trafodaethau yn ymwneud â pherfformiad y lleoliad. Fodd bynnag, nid yw'r staff yn chwarae rhan ddigon effeithiol yn y gweithdrefnau hunanarfarnu ac nid oes ganddynt ddealltwriaeth ddigon cadarn o flaenoriaethau'r lleoliad ar gyfer gwella. O ganlyniad, nid yw'r lleoliad bob tro'n mynd i'r afael yn ddigon cyflym â'r hyn sydd angen ei wella, er enghraifft gwella cynllunio er mwyn sicrhau bod y profiadau dysgu yn herio pob plentyn yn effeithiol. Er hyn, mae staff yn dechrau ymateb i'r meysydd i'w gwella yn fwy priodol yn ddiweddar, er enghraifft wrth wella'u dealltwriaeth o fannau cychwyn y plant trwy ddefnyddio proffil y cyfnod sylfaen yn ogystal â dechrau datblygu'r ardal allanol.

Mae'r pwyllgor yn derbyn gwybodaeth addas am waith y lleoliad oddi wrth yr arweinydd ac wrth ymweld â'r lleoliad. Mae hyn yn sicrhau eu bod yn cynnig cefnogaeth briodol yn ôl yr angen. Mae'r cynllun gwella yn nodi ystod o flaenoriaethau sy'n deillio o'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn addas. Mae hyn yn cynnwys targedau priodol, camau gweithredu a therfynau amser priodol. Mae'r pwyllgor wedi ymateb i ychydig o awgrymiadau'r rhieni, er enghraifft trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol er mwyn gwella cyfathrebu rhwng y lleoliad a'r cartref. Fodd bynnag, nid yw'r pwyllgor na'r ymarferwyr yn monitro effaith y camau gweithredu ar ddeilliannau'r plant yn ddigon effeithiol. Nid yw'r lleoliad wedi gwneud cynnydd digon cadarn wrth ymateb i argymhellion yr arolygiad diwethaf.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan y lleoliad ystod addas o bartneriaethau buddiol sy'n cefnogi'r ddarpariaeth a deilliannau plant yn llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn cydweithio'n briodol ag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin. Yn gyffredinol, mae'r arweinydd a'r pwyllgor rheoli yn gweithredu'n briodol ar eu cyngor ac arweiniad sy'n cyfrannu'n addas at wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Mae arweinydd a'r ymarferwyr yn ymgymryd â hyfforddiant gan y partneriaid hyn yn achlysurol er mwyn gwella eu dealltwriaeth o egwyddorion y cyfnod sylfaen a datblygiad plant. Yn ogystal, mae'r staff wedi ymweld â lleoliadau eraill er mwyn arsylwi ar arfer dda. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth, er enghraifft trwy ddechrau gwella'r amgylchedd dysgu allanol gyda chegin fwd. Mae gan y lleoliad berthynas gadarn gyda'r ysgol leol ac mae'r arweinydd yn cwrdd yn dymhorol â'r athrawes feithrin er mwyn rhannu gwybodaeth am y plant sy'n trosglwyddo. Mae'r berthynas hon yn cefnogi trefniadau trosglwyddo esmwyth i'r plant sy'n symud i'r cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r berthynas waith gadarn rhwng y staff a'r rhieni yn sicrhau eu bod yn barod iawn i gefnogi'r lleoliad, er enghraifft trwy drefnu gweithgareddau codi arian. Mae'r polisi drws agored yn sicrhau bod rhieni'n cael cyfleoedd priodol i drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt gyda'r ymarferwyr. Er hyn, prin yw'r cyfleoedd i rieni dderbyn adborth mwy ffurfiol am gynnydd eu plant yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd priodol o gyfryngau cymdeithasol er mwyn hysbysu rhieni am waith a digwyddiadau'r lleoliad yn rheolaidd.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd priodol o'r gymuned i gyfoethogi profiadau'r plant. Er enghraifft, mae rhieni ac aelodau o'r gymuned yn ymweld â'r lleoliad er mwyn rhannu eu profiadau gyda'r plant. Mae'r plant hefyd yn ymweld yn achlysurol gyda lleoliadau cyfagos sy'n cael effaith gadarnhaol ar ymwybyddiaeth o'r gymuned ehangach, er enghraifft trwy ymweld â fferm gyda lleoliadau eraill sy'n gysylltiedig â Mudiad Meithrin.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae gan y lleoliad nifer priodol o staff cymwysedig i ddarparu cwricwlwm cyfnod sylfaen addas i'r plant. Mae'r ganddynt ddealltwriaeth briodol o egwyddorion y cyfnod sylfaen, er nid ydynt bob amser yn defnyddio'u gwybodaeth yn ddigon effeithiol wrth gynllunio profiadau dysgu heriol sy'n diwallu anghenion pob plentyn. Mae ymarferwyr yn dechrau ymgymryd â hyfforddiant ac ymweliadau i leoliadau eraill er mwyn gwella'u dealltwriaeth a'u medrau personol. Mae trefniadau ar gyfer rheoli

perfformiad staff yn dechrau cefnogi datblygiad staff yn briodol trwy adnabod hyfforddiant perthnasol.

Mae gan y lleoliad ystod addas o adnoddau er mwyn bodloni gofynion y cyfnod sylfaen yn briodol. Yn ddiweddar, mae arweinwyr yn ychwanegu adnoddau pwrpasol yn yr ardal allanol er mwyn cyfoethogi'r dysgu, er enghraifft wrth sefydlu cegin fwd a chyfarpar coginio. Fodd bynnag, nid yw trefn y dydd yn sicrhau bod ymarferwyr yn gwneud y defnydd gorau o'r holl adnoddau sydd ar gael. O ganlyniad, nid oes gan blant fynediad i'r holl ardaloedd dysgu trwy gydol y sesiwn.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr yn blaenoriaethu cyllid yn addas i sicrhau adnoddau o ansawdd da i'r lleoliad. Mae arweinwyr yn manteisio ar gyfleoedd i ychwanegu at gyllid y lleoliad drwy wneud cais am grantiau allanol. Mae hyn wedi eu galluogi i ychwanegu adnoddau yn ôl yr angen. Gwna ddefnydd addas o grant datblygu'r blynyddoedd cynnar trwy fynychu hyfforddiant perthnasol gan yr awdurdod lleol, er enghraifft i ddatblygu medrau llythrennedd plant trwy storïau.

O ystyried safonau'r plant ac ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth, mae'r lleoliad yn cynnig gwerth digonol am arian.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGC** | Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012 |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg |